amgueddfa.cymru

Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP
Ffôn: 0300 111 2 333

AMGUEDDFA CYMRU

museum.wales

Amgueddfa Cymru – Museum Wales
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NP
Tel: 0300 111 2 333

Delyth Jewell MS
Cadeirydd y Pwyllgor

22 Chwefror 2023

Annwyl Delyth

Diolch am eich llythyr diweddaraf a'r cyfle i ymateb i'ch ymholiad penodol. Er ein bod yn teimlo bod y setliad ar gyfer Amgueddfa Cymru yn rhesymol dros y ddwy flynedd nesaf, mae'r rhagolygon tymor hwy yn fwy ansicr ac yn sicr yn peri rhai heriau. O'r herwydd ni allwn roi'r sicrwydd penodol o'r hyn rydych yn ei geisio. Mae problemau strwythurol sylweddol yn bodoli yn adeiladau Amgueddfa Cymru sy'n golygu bod yna risg parhaus i'n casgliadau cenedlaethol. Nodir y rhain ar ein Cofrestr Risg Strategol.

Mae Arolygon Cyflwr helaeth (a gwblhawyd yn 2022) yn amlygu ôl-groniad cynnal a chadw ar draws ein hamgueddfeydd sy'n werth £65m o leiaf, gyda £15m o'r eitemau hyn yn cael eu hystyried yn hanfodol a sydd angen eu hatgyweirio ar frys. Yn ogystal â hyn, mae asesiad pellach o'r seilwaith Mecanyddol, Trydanol a Phlymio (MEP) yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi dangos bod angen buddsoddiad sylweddol yn y meysydd hyn. Mae angen ystyried sawl opsiwn ar gyfer yr ASE hwn ond mae'r rhataf o'r rhain yn dangos bod angen £25m pellach dros y saith mlynedd nesaf. Y gobaith, ymhen amser, yw y bydd y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cael ei gynnwys mewn cais 'Uwchgynllun' sy'n caniatáu i'r holl safle yn Cathays gael ei ail-ddychmygu i'w ddefnyddio dros y 100 mlynedd nesaf.

Felly yn fyr, er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch y casgliad cenedlaethol, mae angen £90m ychwanegol o arian cyfalaf ar Amgueddfa Cymru dros weddill y degawd hwn. Byddai hyn yn golygu cynllunio gofalus er mwyn caniatáu i'r amgueddfa ddarparu adnoddau priodol dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn tybio y byddai'r cyllid hwn yn debygol o ddod o amrywiaeth o ffynonellau.

Yr eiddoch yn gywir

Peter Holt
Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and we will answer you in Welsh. This will not lead to any delay.

Cefnogir gan **Lywodraeth Cymru**
Supported by **Welsh Government**

Llywydd Dros Dro | Acting President - Dr Carol Bell PhD DLitt FLSW FSA
Trysorydd | Treasurer – Hywel John FCA
Cyfarwyddwr Cyffredinol | Director General – David Anderson OBE

Rhif elusen | Charity number - 525774
Rhif TAW | VAT number – GB 783 4541 10